

# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

## LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*  
**Bethan Roberts**  
Rhif Ffôn: 01248 602131  
Ebost: [CyngorLlandygai@ogwen.org](mailto:CyngorLlandygai@ogwen.org)

26 Stryd Fawr  
Bethesda  
Gwynedd  
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol (Cyfarfod Rhithiol) o'r Cyngor a gynhaliwyd ar  
**Nos Iau 19 Tachwedd 2020 am 18.30**

*Oherwydd Covid-19 cynhaliwyd y cyfarfod drwy ddefnyddio Zoom*

### **PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Huw P Jones  
Y Cynghorydd Mary Hayes  
Y Cynghorydd Dafydd Roberts  
Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Dafydd Owen  
Y Cynghorydd Mair Leverett  
Y Cynghorydd Angharad Williams  
Y Cynghorydd Lowri Jones

- 1. Croesawyd** pawb i'r cyfarfod rhithiol gan y Cadeirydd, Cyng. Iwan Hywel.  
Ymddiheuriadau gan y Cyng. Gwen Griffith, Mair Pierce Owen a Gabrielle Wyn.

### **2. Cofnodion**

**Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2020.

### **3. Materion yn codi o'r cofnodion**

- 3.1** Lloches bws yn mynedfa pentref Llandygai – y Clerc wedi derbyn cadarnhad bod yr contractwr yn gobeithio cwblhau'r gwaith erbyn diwedd y mis.
- 3.2** Problemau gyda rhai o'r goleuadau stryd o fewn yr ardal - Cyng. Iwan Hywel wedi bod ogwmpas Mynydd Llandygai a Tregarth, a mae'r Clerc wedi nodi'r goleuadau diffygol, a maent bellach wedi cael ei trwsio gan Cyngor Gwynedd.
- 3.3** Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig – wedi derbyn cefnogaeth gan yr ysgol ac y rhieni. Y Clerc wrthi yn paratoi y llythyr cwyn. Cytunwyd y byddai'r llythyr yn gael ei danfon allan cyn gynted a phosib.
- 3.4** Ciciwr Calon Neuadd Talgai – mae'r postyn a'r peiriant wedi gael ei gosod ar y safle gan Tomos Hughes, Achub Calon y Dyffryn.
- 3.5** Llecyn Tir, Bont Twr – Disgwyl ymateb gan Jo Davies, Rheolwr Ystadau Breedon Group cyn mynd ymlaen i ddanfoni y ffurflen, y rheolwr ar cyfnod seibiant oherwydd cofid-19 (furlough). Clerc i gael diweddariad.
- 3.6** Gyli ym Mhentref Llandygai angen ei lanhau – Cyng. Dafydd Owen i holi Cyngor Gwynedd.
- 3.7** Mynediad i Lon Las Ogwen ger Garej Pandy – Mae'r bolard bellach wedi gael ei osod, ond nid yw'r bolard yn yn weladwy iawn. Cyng. Dafydd Owen wedi codi'r mater gyda Cyngor Gwynedd.

- 3.8 'Knotweed' ger y Parc yn Mynydd Llandegai – y Cynghorwyr lleol i wneud ymholiadau i weld pwy yw'r perchennog.
- 3.9 Adroddwyd fod dim arwyddion ar hyd Llwybr Rhif 3 – swyddog llwybrau wedi ymateb i gadarnhau bydd arwyddion a giatiau newydd yn cael ei rhoid ar y llwybr.
- 3.10 Problemau gyda gyrrwyr bws methu gweld pobl yn yr arhosfan bws ger Pant yr Ardd oherwydd nifer fawr o geir yn parcio ar hyd o ffordd. Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd am marcio'r ffordd i wneud yr arhosfan yn fwy weladwy ac i atal pobl rhag barcio yn y man hwn. Dim ymateb hyd yn hyn.
- 3.11 Tipio anghyfreithlon ar hyd lon Dinas – Cytunwyd y bydd Cyng. Dafydd Owen yn gwneud cais am arwyddion i'w rhoi ar y safle. Nodwyd fod Cyng. Iwan Hywel wedi cysylltu gyda'r swyddog iechyd a'r amgylchedd yn Nghyngor Gwynedd – dim ymateb hyd yn hyn.
- 3.12 Adroddwyd fod aelod o'r cyhoedd wedi cwyno am y ffordd a'r llwybr ger blwch post Penyffriddoedd a'i fod yn beryglus – Cyng. Dafydd Owen i gael y contractwr i lanhau cyn gynted a phosib.
- 3.13 Draeniau o fewn y plwyf angen sylw ar frys, yn enwedig y rhai sydd rhwng Lon y Grug a Ysgol Bodfeurig, ac wedyn lawr am Braichtalog. Y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd, dim ymateb hyd yn hyn.

#### **4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Tachwedd 2020'

**Cyflwynwyd:** Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd – Gwynedd a Môn – danfon sylwadau erbyn 27 Tachwedd 2020.

#### **5. Gwaith y mis**

- 5.1 Adroddwyd Cyng. Iwan Hywel fod llawer o ddŵr ar hyd y ffordd rhufeining, Nant Ffrancon. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.
- 5.2 Gofalwr Neuadd Talgai wedi colli gorriad i hysbysfwrdd Llandygai – y Clerc i holi os oes orriad yn y swyddfa, neu cysylltu gyda'r cwmni'r hysbysfwrdd i gael un arall.
- 5.3 Binau halen – y Clerc i ddanfon y rhestr at Cyngor Gwynedd.
- 5.4 Problemau gyda baw ci yn Nhregarth – Cyng. Dafydd Owen i holi am arwyddion ychwanegol i godi ymwybyddiaeth.

#### **6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr**

**Canolfan Cefnfaes** - Cyng. Iwan Hywel wedi mynychu cyfarfod Grŵp Llywio Canolfan Cefnfaes, ac i gylchredeg y cynlluniau arfaethedig gyda'r aelodau.

#### **7. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**

- 7.1 Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Hydref. Derbyniwyd yr adroddiad.
- 7.2 Rheoli Risg: y Clerc i gylchredeg y cofrestr risg yn fisol a'i hadolygu yn ystod y cyfarfod.

## 8. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Arfon Timber	Taliad 'Phase 1' – Lloches Bws Llandygai	£1953.47
Partneriaeth Ogwen	Cyfraniad tuag at Swyddog Cynnal	£1386.78
D W Griffith	Gosod stand ciciwr calon Neuadd Talgai	£120.00

## 9. Penderfyniadau Cynllunio

**C15/0966/16/MG**

Tir ger Pentwmpath, Llandygai  
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer  
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ  
fforddiadwy  
**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau  
drosodd

**C18/0571/16/HY**

Llys y Gwynt, Bangor  
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo  
ac heb eu goleuo  
**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau  
drosodd

**C18/0767/25/LL**

Coed Wern, Glasinfryn  
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety,  
adeilad derbynfa, a chreu 2  
nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio  
ffyrdd mynediad cysylltiedig a  
meysydd parcio, tirweddu a gwaith  
cysylltiedig eraill.  
**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau  
drosodd

**C20/0267/16/DT**

Bryn Llys, Pen Y Groes, Tregarth,  
Estyniad cefn unllawr.  
**Penderfyniad:** Ar y gweill

## 10. Ceisiadau Cynllunio

**C20/0418/16/LL**

Bryn Gwalchmai, Mynydd Llandegai  
Cais ar gyfer dymchwel stabl a chodi  
uned wyliau hunan gynhaliol yn ei le  
ynghyd a chreu ardal parcio  
cysylltiedig.  
**Penderfyniad:** Gwrthwynebu,  
cynlluniau yn amhriodol i'r ardal.

## 15. Unrhyw fater brys arall

15.1 Y Clerc i lunio amserlen o'r flwyddyn.